RHYBUDD O WNEUD GORCHYMYN

DEDDF PRIFFYRDD 1980

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus
(Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 2 yng Nghymuned Abenbury)
Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2004

Bydd y gorchymyn uchod, a wnaed ar 24 Tachwedd 2004, dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn gwyro'r llwybr troed cyhoeddus a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodiad i'r Rhybudd hwn i linell a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Rhybudd hwn.

Gellir gweld copi o'r gorchymyn a map o'r gorchymyn yn Neuadd y Dref, Wrecsam yn ystod oriau swyddfa arferol. Gallwch gael copïau o'r gorchymyn a'r map yn rhad ac am ddim o Neuadd y Dref, Wrecsam.

Gallwch anfon unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau i'r gorchymyn yn ysgrifenedig at Brif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd y Dref, Blwch SP 1284, Wrecsam, LL11 1WF heb fod yn hwyrach na 30 Rhagfyr 2004. Dylech ddatgan sail eich gwrthwynebiad.

Os na dderbynnir unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau neu os tynnir y rhai a wnaed yn eu hôl, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gadarnhau'r gorchymyn fel gorchymyn diwrthwynebiad. Os anfonir ef i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gadarnhau, anfonir unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau na thynnwyd nhw yn eu hôl gyda'r gorchymyn.

ATODIAD
Rhan 1
Disgrifiad o safle'r llwybr neu'r ffordd presennol

Llwybr troed cyhoeddus rhif 2 yng nghymuned Abenbury ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam o ymyl y ffordd ar Ffordd Cefn ar gyfeirnod grid 33526 35087 i gyfeiriad dwyreiniol gogledd-ddwyreiniol yn gyffredinol am oddeutu 303 metr i gyffordd llwybr troed cyhoeddus rhif 1 a llwybr troed cyhoeddus rhif 3 ar gyfeirnod grid 33554 35098, o led amhenodol, fel a ddangosir gan linell ddu dywyll rhwng pwyntiau A-B-C ar y map atodedig.

Rhan 2
Disgrifiad o safle'r llwybr neu'r ffordd newydd

Llwybr troed cyhoeddus, hynny yw, llwybr lle mae gan y cyhoedd hawl tramwy ar droed yn unig, 1.8 metr o led, o ymyl y ffordd ar Ffordd Cefn ar gyfeirnod grid 33526 35089 i gyfeiriad gogleddol-gogledd-orllewinol am oddeutu 34 metr i bwynt ar gyfeirnod grid 33525 35092, yna i gyfeiriad dwyreiniol yn gyffredinol am oddeutu 127 metr i bwynt ar gyfeirnod grid 33538 35092, yna i gyfeiriad gogleddol yn gyffredinol am oddeutu 87 metr i lwybr troed cyhoeddus rhif 1 ar gyfeirnod grid 33539 35101, cyfanswm hyd o 248 metr, fel a ddangosir gan linell ddu doredig rhwng pwyntiau D-E-B-F ar y map atodedig.

Dyddiedig y 25ain diwrnod hwn o fis Tachwedd 2004

Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth
Neuadd y Dref
Blwch SP 1284
Wrecsam
LL11 1WF

MR/RG/fpnotice1Abenbury.Site